



**CYNGOR TREF  
LLANFAIRFECHAN  
TOWN COUNCIL**



**Neuadd y Dref Gymunedol Llanfairfechan Ffordd y Pentref Llanfairfechan  
LL330AB**

**01248681697 Clerc y Dref: jayne@llanfairfechan.net**

**COFNODION CYFARFOD LLAWN Y CYNGOR TREF  
NOS FERCHER MEHEIN 9<sup>fed</sup> 2021**

Presennol: Cadeirydd: Maer Penny Andow; Cyng Carol Gell; Cyng Laura Fielding; Cyng Andrew Hinchliff; Cyng Claire Hughes; Cyng Rob Jewell; Cyng Christopher Jones; Cyng Nia Jones; Cyng Iolo Kars Jones; Cyng Alun Rhys Jones; Cyng Delohne Merrell: Cyng Christine Roberts.

**42. Croeso gan Gadeirydd y cyfarfod**

**43. Ymddiheuriadau am absenoldeb – dim ymddiheuriadau**

**44. Datganiadau o ddiddordeb – yn unol â Chôd Ymddygiad Llywodraeth Leol**

Enw	Math o Ddiddordeb	Tynnu'n ôl
Cyng Carol Gell	Eitem 4b Aelod o Bwyllgor y Clwb Hwyllo	Dim angen pleidleisio felly yn bresennol yn ystod y drafodaeth
Cyng Andrew Hinchliff	Eitem 4b Aelod o Bwyllgor y Clwb Hwyllo	Dim angen pleidleisio felly yn bresennol yn ystod y drafodaeth
Cyng Andrew Hinchliff	Eitem 9 Materion Cynllunio	Y Cyng wedi ceisio cyngor gan dîm cyfreithiol CBSC sy'n nodi bod aelodau o bwyllgor cynllunio CBSC yn cael aros yn ystod trafodaethau cynllunio'r Cyngor Tref cyn belled nad ydy'r Cyng yn gwneud unrhyw sylwadau.

Penderfynwyd eu derbyn a'u cofnodi

**45. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd**

**a. Cynnig CBSC gyda Maes Parcio Promenâd Llanfairfechan**

Yn bresennol: Andrew Wilkinson, Pennaeth Gwasanaethau'r Gymdogaeth CBSC a Dylan Jones, Rheolwr Traffig newydd CBSC.

Mae CBSC wedi datblygu map a chynllun drafft i adnewyddu a gwella'r maes parcio ac fe gafodd ei gyflwyno i'r Cyngor Tref gyda'r pwyntiau canlynol:

1. Gall y cynllun newydd gynnwys llwybrau beicio a cherdded diogel i mewn ac allan o'r maes parcio, llefydd gyda mynediad i'r anabl, pedwar man gwefru ceir trydan wrth gadw'r mynediad at y Towers, y lle cychod a'r llithrfa.
2. Darparu llwybrau cerdded ychwanegol gyda man croesi ar ramp i mewn i'r maes parcio lle does dim mynediad diogel ar hyn o bryd i'r anabl
3. Wyneb sy'n diogelu glaswellt o bosibl ar gyfer y darnau glaswellt – mae hyn er mwyn mynd i'r afael â difrod o achos ceir wedi'u parcio ar y glaswellt
4. Addasu'r draeniad mewnol er mwyn gyrru dŵr i ffwrdd o le mae'n casglu ar hyn o bryd
5. Buasai CBSC fel arfer yn dechrau ar y gwaith yma cyn diwedd y flwyddyn ond mae awgrym i gysylltu'r gwaith yma gyda'r gwaith atal llifogydd arfaethedig fydd efallai yn golygu amser aros hirach.
6. Dylai canlyniad y cais perygl llifogydd fod yn barod o fewn 2-3 mis a gallai ganiatáu cyfle mwy cydgyssylltiedig am gynllun cyrchfan, a ni ddylid methu hyn. Os bydd cydbrosiect yn digwydd yna bydd

angen gwneud gwaith adfer dros dro yn y cyfamser. Mae CBSC eisoes wedi cau'r tyllau mawr yn y ffordd gyda cherrig ond bydd angen gwneud gwaith pellach yno er mwyn clymu'r cerrig i'w gwneud yn saffach a bydd y gwaith hwn yn para tua 6 mis cyn dirywio.

7. Bu sôn eto bod gan CBSC orchymyn gan y Cabinet i gynhyrchu incwm o bob maes parcio yng Nghonwy felly caiff talu ac arddangos ei ystyried ond dim ond pan fydd y gwaith adnewyddu wedi'i gwblhau yn llawn, a bod y cynllun parcio trigolion ar waith.
8. Caiff y gwaith adnewyddu ei ariannu o flaen llaw o fenthyciad ariannol yn erbyn incwm y dyfodol neu arian cyfatebol gan y Cyngor Tref neu o ffrydiau ariannol eraill.

#### Codwyd y cwestiynau canlynol:

9. Mae pryder bod y map ddrafft wedi lleihau nifer y llefydd parcio er mwyn gwneud lle i'r llwybrau teithio. Ydy'r tîm prosiect wedi asesu'r ardal ar benwythnos i ddeall faint yn union o gerbydau sydd angen lle? **Mae'r tîm wedi trefnu i fynd ar ymweliad safle ac fe gaiff hyn ei ystyried yn y cynllun terfynol – unwaith bydd y gwaith cynllunio wedi'i orffen yn llwyr, gan amlaf daw i'r golwg bod llefydd ychwanegol i'w cael. Mae'n rhaid cael cydbwysedd rhwng mynediad diogel i gerddwyr a beicwyr a'r angen am lefydd parcio.**
10. Sut byddwch yn mynd i'r afael â phryderon ynghylch llefydd parcio i drigolion yr ardal? **Caiff cynllun parcio i drigolion ei weithredu er mwyn gwarchod yr ardal rhag dadleoli parcio**
11. A fydd mwy nac un peiriant talu ac arddangos? **Bydd, bydd mwy nac un os caiff peiriannau eu gosod**
12. Sut fuasai gwefrwyr trydanol yn gweithio yn erbyn y rhwystrau llifogydd? **Tydy'r cynllun ddim yn un sefydlog, mae'r gwefrwyr wedi'u gosod yno i ddechrau gan fod y cyflenwad drydan yno. Mae modd newid hyn os bydd yn anaddas.**
13. A fydd y ffordd at y llithrfa yn cael ei hail-wynebu fel rhan o'r cynllun? **Bydd, bydd y gwaith hwn wedi'i gynnwys**
14. Mae angen inni gyfrifo faint o lefydd byddwn yn eu colli go iawn. Mae angen gwneud mwy i fwyafu'r nifer o lefydd parcio gan fod diffyg llefydd parcio yn barod. **Bydd gwaith pellach i'w wneud er mwyn cyfrifo'r nifer o lefydd parcio yn iawn**
15. A fuasech yn cynnig llefydd parcio dros nos i gerbydau gwerysyla gyda chysylltiad trydan? **Mae hon yn fater cynhennus mewn llawer o lefydd a buasai CBSC yn dilyn unrhyw ymgynghoriad gyda'r preswylwyr a'r Cyngor Tref ar hyn.**
16. Pryder mawr ynghylch amser aros hirach y prosiect – nodwyd ein bod wedi aros amser hir i'r gwaith gael ei wneud a bod pryder ynghylch sut mae'r cyhoedd yn ein dirnad
17. O ystyried y nod o symud tuag at danwydd glân – oes modd cael mwy o fannau gwefru trydanol? **Byddai modd gosod system o bibelli er mwyn gwneud yn siŵr bod modd ychwanegu manau gwefru ychwanegol yn y dyfodol pan fydd angen. Mae angen i'r penderfyniad ystyried beth sy'n debygol o gael ei ddefnyddio heddiw yn bennaf gan nad ydy'r llefydd ar gael i geir sydd ddim yn gwefru felly dydyn ni ddim eisio llefydd dros ben.**
18. Nodwyd bod y llwybrau cerdded a beicio i'w croesawu
19. A fyddai'r cynllun hwn yn cael effaith ar ddefnydd y llithrfa a'r iard gychod? Does dim disgwyl y bydd yn cael effaith ar yr ardal yma ond byddai angen cael sgwrs gyda'r porthfeistr a chynnal ymgynghoriad gyda defnyddwyr presennol a thrigolion i wneud yn siŵr nad ydy'r ardal yn cael ei heffeithio'n ddrwg.
20. Trigolion wedi nodi bod y cerrig yn y tyllau mawr yn y ffordd yn beryg, yn enwedig i blant, gan eu bod yn dod allan o'r tyllau. Pryd fydd y gwaith o fynd i'r afael â hyn yn digwydd? **Gan fod hwn yn fater o iechyd a diogelwch, bu i'r Cadeirydd ofyn bod hwn yn cael ei ddatrys o fewn 7 diwrnod a bod y Cyngor Tref yn cael clywed am unrhyw ddiweddariad.**
21. A fydd cost i drigolion yr ardal ar gyfer trwyddedi trigolion? **Na tydy hi ddim yn debygol y bydd CBSC yn codi tâl oherwydd byddai'r cynllun newydd yn gosod cyfyngiadau newydd ar drigolion. Fodd bynnag, buasai'n rhaid i'r penderfyniad terfynol fynd drwy'r Cabinet. Buasai'n rhaid i'r holl ymwelwyr barcio yn y maes parcio.**

22. A fyddai modd rhoi'r llefydd parcio i'r anabl ar lan y môr er mwyn rhoi golygfa well a mynediad hawdd i'r prom a'r maes chwaraeon? **Byddai, mae hwn yn ddrafft ac mae modd newid pob math o benderfyniad yn ôl safbwynt lleol.**
23. Allai'r cynllun hwn gael effaith ar Ffordd yr Orsaf gyda pharcio dadleoli? **Buasai hyn yn bryder gan fod pwysau difrifol yno yn barod. Yndi, mae'n debygol y bydd angen cynnwys Ffordd yr Orsaf yng nghynllun y trigolion er mwyn osgoi hyn rhag digwydd. Buasai yn sicr yn cael ei ystyried yn y gwaith ymchwil.**
24. A fydd y maes parcio yn lle parcio tymor byr? **Bydd angen ystyried yr amseroedd codi tâl. Mae rhai llefydd yn codi dim ond ar ôl 9yb er mwyn gadael i bobl sy'n mynd â'r ci am dro a phobl sydd eisiau mynd am dro yn gynnar wneud hynny am ddim. Bydd angen ystyried yr holl ddewisiadau.**
25. Pryd fydd y Cyngor Tref yn gwybod yn union pa arian sydd ei angen? **Mae angen nodi bod dwy agwedd i'r cynllun hwn:**
  1. **Bydd y gwaith adnewyddu yn digwydd cyn gynted â phosibl – tydy hyn ddim yn gysylltiedig yn uniongyrchol gyda thalu ac arddangos ar y cam hwn**
  2. **Mae'r gofyniad am incwm yn benderfyniad gan Gabinet CBSC ac fe gaiff ei ystyried unwaith bydd y gwaith adnewyddu wedi digwydd**

Mae unrhyw ffigur yn seiliedig ar incwm posibl i'r ardal, a bydd hyn yn newid o'r dyfynbris blaenorol yn nogfen Gwasanaethau Cynaliadwy CBSC oherwydd y cynllun newydd. Gall dewisiadau ar gyfer y dyfodol gynnwys bod y Cyngor Tref yn ariannu'r ardal fel bod trigolion yn parcio am ddim naill ai drwy nawdd neu drwyddedi. Bydd ffigur ar gael unwaith bydd yr holl randdeiliaid wedi penderfynu ar y cynllun terfynol.

26. Camau nesaf ar gyfer y prosiect:
  1. **Trwsio'r tyllau mawr yn ddiogel dros dro cyn gynted â phosibl**
  2. **Parhau i gynllunio cynllun y prosiect mewn ymgynghoriad gyda'r rhanddeiliaid**
  3. **Aros am benderfyniad gan LIC ynghylch y Cynllun Amddiffyn rhag Llifogydd (2/3 mis)**

Bu i'r Cadeirydd ofyn am siart lif i'w rhannu gyda'r trigolion er mwyn dangos beth sydd wedi'i gynllunio a phryd bydd hyn yn digwydd. Bydd y Cyngor Tref a CBSC yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau bod y prosiect o fudd i'r gymuned gyfan.

#### b. Cais Clwb Hwyllo Llanfairfechan Prosiect Hwyl

Presennol: Lance Jones, Clwb Hwyllo Llanfairfechan

Roedd dogfen prosiect ddiwygiedig wedi'i rhannu gyda'r Cynghorwyr cyn y cyfarfod a cyfeiriwyd ati fel a ganlyn:

1. **Mae'r Clwb Hwyllo wedi clywed bod eu cais am nawdd i greu cyfleusterau ychwanegol wedi'i derbyn ac felly mae'r Clwb bellach yn awyddus i ddechrau datblygu Prosiect Hwyl.**
2. **Mae'r camau cyntaf eisoes wedi'u gwneud drwy lansio cystadleuaeth i enwi'r cychod hyfforddi newydd yn y ddwy ysgol yn Llanfairfechan.**
3. **Mae pwyllgor y clwb hwyllo wedi penderfynu y bydd yn ceisio am ganiatâd i estyn y parc cychod o 31 metr, nid 38 metr fel y nodwyd yn flaenorol. Tir CBSC ydy hwn ac mae'r caniatâd yn cynrychioli newid defnydd, estyn y ffens ar hyd llwybr troed y promenâd am 31 metr pellach ac ar hyd y ffordd goch at y postyn golau nesaf, pellter o 32 metr. Ar y pwynt pellaf hwn mae'r glaswellt yn 8.2 metr o hyd yn unig, sef yr hyd culaf ar gyfer beth sy'n ymarferol i'w ddefnyddio.**

Codwyd y cwestiynau canlynol:

4. **Mae hwn yn % uchel o gynnydd – pam fod angen hyn? Bwriad y prosiect ydy cyflwyno pobl newydd i chwaraeon dŵr ac mae rhai cysylltiadau wedi'u gwneud gyda thrigolion a grwpiau presennol yn y pentref. Mae'r nofwyr dŵr agored yn arbennig wedi dangos diddordeb ac roedd y trigolion oedd yn**

rhan o'r Diwrnod Agored blaenorol hefyd i gyd yn awyddus i fod yn rhan ohono. Mae ymchwil yn dangos bod y rheiny sy'n dechrau dysgu yn sydyn yn mynd ymlaen i fod yn berchen ar eu cychod eu hunain a'u bod ar gael o fewn pris rhesymol.

Mae pwysau sylweddol eisoes ar lefydd yn yr iard gychod gydag aelodau yn aros am le. Mae rhai cychod wedi'u cwestiynu gan nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd – bydd rhaid eu symud o'r ardal os nad ydyn nhw'n defnyddio'r lle yn gywir.

5. Estheteg – Sut fydd y parc yn edrych yn ddeniadol ac effeithlon? Roedd yr Heddlu wedi awgrymu ffens uwch, ond mae'r pwyllgor wedi cytuno bod hyn yn annerbyniol o safbwynt estheteg. Caiff y ffens bresennol ei hestyn, ac mae contractwr lleol eisoes wedi rhoi dyfynbris a chynllun ar gyfer yr ardal. Yn ychwanegol, mae contractwr lleol newydd wedi'i gaffael er mwyn cynnal yr ardal er mwyn sicrhau ei bod yn cyrraedd y safon.

6. Bydd darn hirach o balmant lle bydd cerddwyr wedi'u cuddio. Sut fydd y Clwb yn cadw'r ardal hon yn ddiogel a glân?

Mae'r Clwb eisoes yn gweithredu polisi diogelwch ar ochr wal y môr. Ni chaiff cychod tal eu cadw ar yr ochr yna ac mae rhai isel a chaiacau yn unig yno er mwyn gwarchod y cerddwyr. Caiff cychod tal a chychod gyda hwylbrenni eu cadw ar ochr y ffordd goch gyda'r hwylbrenni wedi'u gostwng y tu allan i'r tymor hwylio.

7. Ymgynghori a chysylltu gyda'r gymuned – beth sydd wedi'i drefnu? Yr adroddiad i'r Cyngor Tref ydy'r cam cyntaf gyda hyn ac mae'n beth cadarnhaol bod y Clwb wedi derbyn gwahoddiad i fynd i siarad am y prosiect. Bydd Diwrnod Agored ar Ddydd Sul Awst 8<sup>fed</sup> lle bydd modd i'r gymuned ymuno â'r aelodau mewn sesiynau blasu ar gychod, caiacau a byrddau. Y gobaith o hyn ydy, drwy ddefnyddio'r arian nawdd, gall y clwb annog 12 person ifanc a 12 dynes i gofrestru ar gyfer y cyrsiau hyfforddiant syml gan Ganolfan Chwaraeon Dŵr Plas Menai a bydd hyn yn eu galluogi i symud ymlaen at ymarfer yn Llanfairfechan ar y cychod hyfforddi newydd.

8. Cynlluniau Lleihau Perygl Llifogydd - Mae'n ymddangos bod y gwaith am ddigwydd yn fuan felly a fydd hyn yn cael effaith ar Brosiect Hwyl? **Mae bod yn bresennol heno wedi bod yn ddefnyddiol i glywed am y datblygiad hwn ac mae'n sicr yn rhywbeth i'w ystyried. Mae'n hyd yn oed pwysicach fod CBSC, y Cyngor Tref a'r Clwb Hwyl yn cydweithio ac yn rhannu gwybodaeth yn ystod y cyfnod hwn.** Penderfynwyd derbyn a chofnodi hyn

#### 46. Derbyn a chymeradwyo cofnodion 19eg o Fai 2021

Cynigydd Cllr A Hinchliff Eilydd Cllr C Jones

Yn unfrydol

Penderfynwyd eu derbyn a'u cofnodi

#### 47. Derbyn gwybodaeth gan y Tîm Rheoli Argyfwng a chymeradwyo newid mewn trefniadau o ran pandemig Covid-19.

<b>Rhestr Gwybodaeth a Chamau Gweithredu Mehefin 6<sup>ed</sup> 2021 Cyngor Tref Llanfairfechan a Thîm Rheoli Argyfwng</b>		
Bws mawr wedi parcio ar Ffordd yr Orsaf	Jayne	Wedi anfon llythyr ac e-bost eto i'r holl bartïon ar Fehefin 3ydd
Offer Cae Chwarae a MUGA	Gyda CBSC	Caiff yr offer ei osod yn yr ychydig wythnosau nesaf. Bydd tâl am drwsio'r sbringiau yng Ngerddi Victoria a bydd hefyd tâl bach gan CBSC i drwsio darn o'r ardal matio diogelwch.
Parcio Gorwel	Gyda CBSC	Gwybodaeth gan Aelod Cabinet wedi'i drosglwyddo i'r preswlydd
Maes Parcio Nant y Pandy	Gyda CBSC	Proses gyfreithiol barhaus / e-bost ymholi wedi'i hanfon at Phil Vipond 27/4
Maes Parcio'r Promenâd	Gyda CBSC	AR YR AGENDA
Dŵr y Fynwent	Gyda CBSC a Dŵr Cymru	Mae hyn wedi symud ymlaen. Taliad ychwanegol wedi'i wneud i Dŵr Cymru – CBSC i gwblhau'r gwaith sylfaenol yn yr wythnos nesaf ac yna gall Dŵr Cymru gwblhau'r gwaith cysylltu
Grant Dŵr Anafon Morfa Madryn	Gyda phanel Anafon	Yn parhau gyda'r pwyllgor yn symud pethau ymlaen
Ymwelwyr Iechyd Plas Menai	Jayne a Meddygon Teulu	Dim dyddiad eto ond mae'r prosiect yn symud yn ei flaen
Prosiect TG Ysgol	Jayne / Kirsty	Pennaeth wedi gofyn oes modd holi unwaith eto am gyfrifiaduron. Caiff y poster ei ddiweddarau a'i anfon allan wythnos yn dechrau 7/6/21
Cronfa Adfywio Canol y Dref	Jayne/ Kirsty	Mae gennym bellach bum pabell sy'n cael eu defnyddio i gyd yn gymuned - Village Inn, Pen y Bryn, The Virginia, Split Willow, Seagrass. Mae gennym un babell at ddefnydd TC ac fe gaiff ei defnyddio ar ddydd Sadwrn ar gyfer Brave the Shave
<i>Incredible Edibles</i> a dalwyr blodau	Jayne/Kirsty	Aeth y gyfnewidfa planhigion a hadau yn dda iawn. Mae sesiynau ar Ddydd Iau yn mynd yn dda ac rydym wedi cael caniatâd i blannu wrth y Co-op.
Cyfieithu'r wefan	Gyda Delwedd	Wedi'i gwblhau ac yn aros am gyfieithiadau'r agenda a'r cofnodion
Ymholiad CDLI ac adeiladu tai	Jayne	Ebost wedi'i hanfon at CBSC ar 3/06/2021
Ap adrodd ERF	Jayne	Dydd Gwener Mehefin 18fed am 11yb - hyfforddiant gan Glerc y Dref - croeso i bawb ar-lein yn cynnwys trigolion
Tipio Anghyfreithlon ym maes parcio Ffordd yr Orsaf	Jayne	Tipio anghyfreithlon Cymru CBSC wedi cynnig helpu i ddatrys y broblem. Ebost wedi'i hanfon 3/06/2021
Goleuadau stryd ar y promenâd	Gyda CBSC	Ebost wedi'i hanfon 3/6/2021
Prosiect Cyffordd yr A55		Mae ymholiad cyhoeddus ar fynd ac yn debygol o fod ym mis Medi
Cynlluniau Wythnos Gymunedol Llanfairfechan		Wedi cyflwyno adroddiad yng nghyfarfod Mehefin 30 <sup>ain</sup>

#### **Pwyntiau o'r Rhestr o Gamau Gweithredu:**

- 1. Gofyn am sesiwn ailgylchu gyda Llanfairfechan Di-blastig**
- 2. Goleuadau stryd – dal i aros i gael eu trwsio. Tydy'r goleuadau a'r arwydd digidol dal ddim yn gweithredu**
- 3. Mae ymwelwyr iechyd yn cynnal sesiynau o'r Neuadd – yn dechrau yn yr ychydig wythnosau nesaf**
- 4. Gwaith CDLI - Mae'r Clerc wedi anfon e-bost ac yn aros am ateb, ond mae'n ymddangos bod y swyddogion wedi bod i ffwrdd o'r swyddfa am beth amser**

Awgrym bod y Cyngor Tref yn symud tuag at gynnal cyfarfodydd unwaith eto yn Neuadd y Dref Gymunedol Llanfairfechan o Ddydd Mercher Gorffennaf 21<sup>ain</sup>. Gall y cyfarfod hefyd fod ar-lein er mwyn cwrdd ag anghenion y rheiny sydd methu dod i'r cyfarfod oherwydd pryderon Covid-19. Hefyd, bu awgrym bod yr angen am y Tîm Rheoli Argyfwng i'w weld yn lleihau gan fod busnesau yn ailgydio yn gynt na'r disgwyl felly bu awgrym ein bod yn ailystyried y mater hwn yn yr un cyfarfod.

Cynigydd Cllr A Hinchliff Eilydd Cllr C Jones Yn unfrydol Penderfynwyd eu derbyn a'u cofnodi

#### 48. Derbyn a chymeradwyo adroddiad ariannol ac adroddiad arian mân mis Mehefin 2021

Nodwyd bod y £150.00 sydd wedi'i dalu i mewn i'r Cyfrif Cyfredol oherwydd cwyn y Clerc am wasanaethau'r banc - dydyn ni ddim fel arfer yn talu i mewn i'r cyfrif hwn.

Safleoedd Bws – Clerc i wirio pryd fydd y gwaith glanhau yn digwydd. PROW – Clerc i anfon anfoneb ar gyfer ad-daliad o £750 i CBSC fel y cytunwyd

Cynigydd Cllr C Gell Eilydd Cllr R Jewell Yn unfrydol Penderfynwyd eu derbyn a'u cofnodi

#### 49. Derbyn a chymeradwyo taliadau mis Mehefin 2021

1. Taliadau Staff mis Mehefin – cyflogau, cyfraniadau pensiwn gweithwyr a chyflogwr hyd yma – £3800
2. B&Q Tradepoint – tortsh sy'n gwefru a chebl estyn - £67.29
3. Sgipiau Cymunedol CBSC - £552.00
4. (Ôl-daliad Mai 13<sup>eg</sup>) dyfynbris ychwanegol cysylltiad Erw Feiriol - £427.20
5. (Ôl-daliad Mai 24<sup>ain</sup>) Blodau ger y basgedi crog ar lan y môr - £429.36
6. (Ôl-daliad Mai 24<sup>ain</sup>) Grŵp Chwarae (Cylch) Llanfairfechan grant s137 grant (taliad hwyr) - £395.87
7. (Ôl-daliad Mehefin 4<sup>ydd</sup>) Gwobr seren Cawthreys - £72.00

Cynigydd Cllr A Hinchliff Eilydd Cllr C Jones Yn unfrydol Penderfynwyd eu derbyn a'u cofnodi

#### 50. Trafod materion cynllunio: 0/48534 Trewen 14 The Close Llanfairfechan Conwy LL33 0AG

(Caniatâd Adeilad Rhestredig) Mae'r preswyllydd mewn ymgynghoriad gyda Swyddog Cynllunio CBSC – Dim sylwadau pellach Penderfynwyd ei dderbyn a'i gofnodi

51. Derbyn gohebiaeth – gohiriwyd tan y cyfarfod nesaf Penderfynwyd derbyn a chofnodi

52. Derbyn adroddiadau o gyfarfodydd – gohiriwyd tan y cyfarfod nesaf Penderfynwyd derbyn a chofnodi

#### 53. Derbyn cwynion a chanmoliaeth brys

1. Gofyn i CBSC am gopi o gynllun drafft y maes parcio – Clerc i wneud hyn
2. Gofyn i'r dalwyr blodau gael eu gwagu a'u plannu. Y Cyngorwyr wedi cytuno eu tacluso yn y cyfamser a'r Clerc i gysylltu gyda CBSC i weld pa gynlluniau sydd mewn lle eleni
3. Ailgodi pryderon am ba mor hir gall y prosiect maes parcio gymryd. Clerc i lunio datganiad i'r trigolion mewn ymgynghoriad gyda CBSC. Clerc i anfon ebost i ofyn i gwblhau'r gwaith adfer mewn 7 diwrnod yn y cyfamser.
4. Cwyno am y man gwyllo ar Terrace Walk – Cyngorydd Sir i holi am gynlluniau CBSC
5. Mae preswylwyr wedi codi mater yr hen co-op. Nodwyd nad mater i'r Cyngor Tref ydy hyn nes ei fod yn dod i mewn fel cais cynllunio. Bu i'r Clerc atgoffa bod trigolion yn gallu codi unrhyw fater cynllunio yn uniongyrchol drwy Gyngor Conwy yn eu porth cynllunio neu drwy gysylltu gyda'r tîm yn uniongyrchol drwy ebost. Mae'r Clerc yn hwyluso sesiwn hyfforddi Rhoi Gwybod Amdano ar-lein ar Ddydd Gwener Mehefin 18fed 2021 am 11yb i helpu cyngorwyr a thrigolion fynd i'r afael â'r holl wahanol dudalennau sydd i roi gwybod ar y wefan. Caiff poster ei anfon allan yn fuan.
6. Llongyfarchiadau i'r Maer am y digwyddiad Brave the Shave. Digwyddiad cadarnhaol iawn gan ddiolch yn fawr i'r holl gynghorwyr a'r helpwyr am eu gwaith ar ddydd Sadwrn. Diolch i Gaynor o Zax am gefnogi'r digwyddiad y mae modd ei weld ar dudalen Facebook y Cyngor Tref I Ddathlu Llanfairfechan Celebrates.

Penderfynwyd eu derbyn a'u cofnodi

#### 54. Bu i'r Cadeirydd gau'r cyfarfod am 8:41yh.

Cyfarfod nesaf: Cyfarfod Llawn y Cyngor Tref Nos Fercher Mehefin 30ain 2021 am 7yh ar-lein

Arwyddwyd gan Gadeirydd y cyfarfod:  
Dyddiad: